
Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenwyr ifanc!

# Dod i adnabod






# Angharad Price



## Crynodeb:

Gan agor yn 1799, mae *Nelan a Bo* wedi'i osod mewn cyfnod o newid cymdeithasol mawr. Mae'r tir yn cael ei gau. Mae'r chwyldro diwydiannol ar droed. Mae anghydffurfiaeth yn ennill ei lle. Pa ffawd sy'n aros gwerin cefn gwlad ar drothwy'r cyfnod newydd? Trwy lygaid Nelan a Bo, gwelwn wareiddiad cyfan yn dod i fodolaeth: y Gymru Gymraeg gapelog yr ydym yn dal i fyw ar ei seiliau heddiw. Ond mae hon hefyd yn stori gariad, a honno'n mynd o'r crud i'r bedd, a'i lliwiau cyfnewidiol yn creu patrymau blêr o ystyr ac o deimlad ar gynfas lom y rhostir.

## Bywgraffiad

Magwyd Angharad Price ym Methel ger Caernarfon. Bu'n ddarlithydd ym mhrifysgolion Fienna, Abertawe a Chaerdydd cyn mynd i Brifysgol Bangor, lle mae hi bellach yn Athro mewn Cymraeg ac Ysgrifennu Creadigol. Mae'n awdur nifer o gyfrolau academaidd, cyfrolau o ysgrifau a thair nofel. Enillodd *O, Tyn y Gorchudd* y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol 2002 a gwobr Llyfr y Flwyddyn yn 2003. Cyrhaeddodd *Caersaint* restr fer Llyfr y Flwyddyn yn 2011 a chyrhaeddodd *Ymbapuroli* restr fer Llyfr y Flwyddyn 2021.

### Pryd ddest ti'n ymwybodol dy fod eisiau sgwennu, oedd unrhyw ffactorau arbennig wedi cael effaith?

Roedd Mam yn mynd â ni i'r llyfrgell yng Nghaernarfon i ddewis llyfrau, ac roedd darllen cyfresi fel *Y Llewod* gan Dafydd Parri a *Criw Crawiau* gan Emily Huws yn gyffrous. Cist drysor ydi pob llyfrgell a'i chaead yn agored i bawb. Mae llyfrgelloedd mor werthfawr. Maen nhw'n wasanaeth iechyd o fath gwahanol

Rhan o'r pleser o ddarllen oedd yr awydd i sgwennu, mae'n siŵr. Roedd yr awydd yno o'r dechrau. Roedd gennyf ddiddordeb mewn iaith a geiriau, nid y Gymraeg yn unig, ond pob iaith. Roedd fy ewythr Pavel o Tsiecoslofacia yn siarad â'i deulu dros y ffôn bob Nadolig ac roeddwn wrth fy modd yn gwrando ar sŵn ei iaith feddal a melodaidd. Peth naturiol felly oedd dechrau defnyddio iaith yn ddeunydd crai a chymryd diléit yn hynny.

### Dywed ychydig am *Nelan a Bo*, o ble ddaeth yr ysbrydoliaeth, a beth wyt ti'n gobeithio bydd darllenwyr yn gael o'r stori hon...

Y pleser o gael fy magu ym Methel oedd prif ysgogiad *Nelan a Bo*. Fel llawer o bentrefi ar hyd a lled Cymru, mi dyfodd y pentref yn sgil diwydiannaeth ac anghydffurfiaeth o gwmpas y flwyddyn 1800. Yn achos Bethel, mi dyfodd gwareiddiad cyfan allan o ddarn o rostir digon llwm. (Yn ôl y Censws diwethaf, dyma un o bentrefi mwyaf Cymraeg Cymru hyd heddiw.) Roeddwn eisiau archwilio sut roedd y tyfu hwnnw wedi digwydd, ac yn fwy penodol, sut roedd y newid hwnnw'n teimlo i bobl ar y pryd. Mae Nelan a Bo, dau unigolyn arbennig sy'n ffrindiau gorau ar ddechrau'r nofel, yn mynd trwy'r gweddnewidiad hwn yn eu bywydau eu hunain.

Mi fyddwn i'n gobeithio bod y nofel yn help inni ddychmygu profiadau Cymry'r gorffennol, ac yn rhoi dealltwriaeth inni o rai agweddau ar ein cymdeithas gyfoes, gan gynnwys straeon ysgubol ein capeli anghofiedig.

### Beth yw dy hoff *genres* darllen, a pha lyfrau wyt yn darllen ar hyn o bryd?

Dwi'n darllen pob math o bethau, yn ffaith a ffuglen, ac wrth fy modd yn darllen (trwy gyfieithiadau) lyfrau gan awduron o bedwar ban byd. Mi fedrwch chi deithio ymhob ystyr trwy lyfrau: teithio trwy wledydd a diwylliannau gwahanol, teithio trwy amser, teithio trwy syniadau a dychymyg a phrofiadau pobl eraill. Does yna ddim ffiniau. Hyd yn oed yng nghanol caethiwed Covid 19, roedd yna ryddid dychymyg i'w gael wrth ddarllen. Mae meddwl am fyd heb lyfrau'n frawychus.

Yn ddiweddar, dwi wedi bod yn darllen nofelau o Japan ac wedi dod i nabod y wlad honno trwy ei llenyddiaeth. Mae 'na nofel gan Yukio Mishima am gymuned o bysgotwyr perlau sy'n byw ar ynys fechan yn y Môr Tawel. Ei theitl Saesneg yw *The Sound of Waves*. Roedd darllen honno'n brofiad cofiadwy, ac mae ei symlrwydd a'i hud wedi aros efo fi.